| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **16, GORFFENNAF, 2009.** |
| **PWNC** | **PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG.** |
| **PWRPAS** | **1. Ystyried diwygiadau i'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog.**<br>**2. Ystyried trefn ar gyfer ymdrin â honiadau o dorri'r protocol.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Mae gallu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol ac i weithredu'n broffesiynol yn dibynnu ar gydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion a dealltwriaeth o rolau'r naill a'r llall. Er mwyn hybu'r cyd-ddealltwriaeth yma, mae gan y Cyngor, ers rhai blynyddoedd, brotocol cyswllt aelod-swyddog.

2. Dogfen leol yw'r protocol ac er ei fod yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, nid yw yn rhan o'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau na swyddogion. Petai swyddog yn gweithredu yn groes i'r protocol fe ellid ymdrin â hynny drwy drefniadau disgyblu arferol y Cyngor. Petai aelod, ar y llaw arall yn gweithredu'n groes i'r protocol, nid oes, ar hyn o bryd, unrhyw drefniadau ar gyfer ymdrin â hynny. Nid yw honiad o weithredu'n groes i'r protocol, o'i gymharu â gweithredu'n groes i Gôd Ymddygiad Aelodau, yn gymwys fel mater i'w gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3. Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn bwyllgor statudol a sefydlwyd gyda'r swyddogaeth o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau etholedig. Mae cynnal safonau ymddygiad uchel yn rhan hanfodol o lywodraethu corfforaethol da, ac mae gan y Pwyllgor Safonau rôl allweddol i'w chwarae yn hynny. Mae'n cymryd ei swyddogaeth o ddifrif ac yn ddiweddar mae wedi rhoi sylw i'r protocol aelod-swyddog.

4. Gyda golwg ar atgyfnerthu'r protocol aelod-swyddog ynghyd â cheisio datrysiad lleol i faterion nad ydynt yn ddigon difrifol i gael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon, mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell rhai diwygiadau i'r protocol aelod-swyddog ynghyd â chyflwyno cyfundrefn leol ar gyfer ymdrin â honiadau fod aelod wedi torri'r protocol.

5. Atodaf i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1, gopi o'r protocol diwygiedig. Mae'r diwygiadau i'r protocol wedi eu tanlinellu ynddo a hoffwn dynnu sylw yn arbennig at baragraffau 1.7, 1.8, 9.3 a 9.5.

6. Yn Atodiad 2 ceir trefn arfaethedig ar gyfer ymdrin â honiad fod aelod wedi torri'r protocol. Dylid pwysleisio mai diben sefydlu trefn o'r fath yw darparu modd cyflym ac effeithiol i ddatrys unrhyw anghydfod. Serch hynny, dylid nodi, pe bai'r Cyngor ym mabwysiadu'r drefn, y bydd yn rhoi'r awdurdod i'r Pwyllgor Safonau mewn achosion teilwng roi cerydd i aelod.

7. Lluniwyd y dogfennau yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Busnes a'r Gweithgor Gwasanaethau Aelodau.

**<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

8. Gofynnir i'r Cyngor :-

    (i) Fabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog.

    (ii) Fabwysiadu'r drefn leol ar gyfer ymdrin â honiadau fod aelod wedi torri'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog.